# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 22 i 28 Mawrth 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

11 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

13 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Ymchwiliad Ewropeaidd OLAF i Dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru

**Nick Bourne:** Pa wybodaeth y mae Prif Weinidog Cymru wedi'i derbyn yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Cabinet ynghylch yr ymchwiliad Ewropeaidd, OLAF, i dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru, a rôl y cyn-Ddirprwy Brif Weinidog yn y twyll hwnnw? (WAQ16684)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Dim – parthed ail elfen y cwestiwn. Parthed yr elfen gyntaf, cefais wybod ddiwedd Gorffennaf y llynedd fod OLAF wedi gwahodd archwilwyr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i gyfrannu at ymweliad 'rheoli ar y cyd' gydag archwilwyr yr Adran Addysg a Sgiliau â CBAC, dan awdurdod Rheoliad Cyngor 2185/96. Fe'm hysbyswyd am y meysydd ymchwilio arfaethedig ac ymgynghorwyd â mi ynghylch a ddylai swyddogion SCEC gyfrannu neu beidio. Roeddwn o'r farn y byddai'n well i dîm OLAF/Adran Addysg a Sgiliau symud ymlaen heb gyfranogiad uniongyrchol SCEC, oherwydd yr Adran Addysg a Sgiliau oedd yn gyfrifol am daliadau cronfa gymdeithasol Ewrop a'r archwiliadau ar yr adeg berthnasol, ynghyd â'r posibilrwydd y gallai gwrthdaro gwirioneddol neu dybiedig o ran buddiannau godi.

Hysbyswyd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg a minnau ym mis Chwefror, yng nghyd-destun cyngor ar sefyllfa gyffredinol CBAC, fod ymchwiliad yr heddlu i uned Ewropeaidd CBAC yn parhau, ac nad oedd yr ymchwiliad arfaethedig gan OLAF wedi dechrau eto. Nid oes unrhyw Weinidogion eraill wedi derbyn gwybodaeth ar y mater hwn.

### Protocol Ymchwiliad yr Heddlu i Michael German

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddarparu manylion y protocol sefydledig yr oedd yn ei ddilyn wrth roi'r newyddion diweddaraf i'r Dirprwy Brif Weinidog Gweithredol ynghylch hynt ymchwiliad yr heddlu i Michael German, ac a wnaiff gyhoeddi'r protocol hwn? (WAQ16694)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyhoeddwyd y protocol hwn ar wefan y Cynulliad ar 1 Tachwedd 2001.

### Cyfathrebu rhwng yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Dirprwy Brif Gwnstabl

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddarparu rhestr o Weinidogion y Cabinet a oedd yn gwybod am fodolaeth sianel gyfathrebu rhwng yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Dirprwy Brif Gwnstabl ynghylch ymchwiliad yr heddlu i Michael German, cyn y'i gwnaed yn wybodaeth gyhoeddus? (WAQ16695)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at atebion blaenorol a gafwyd gennyf fi ac aelodau unigol eraill y Cabinet ar y mater hwn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Ymchwiliad Ewropeaidd OLAF i Dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru

**Nick Bourne:** Pa wybodaeth y mae'r Gweinidog wedi'i derbyn yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Cabinet ynghylch yr ymchwiliad Ewropeaidd, OLAF, i dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru, a rôl y cyn-Ddirprwy Brif Weinidog yn y twyll hwnnw? (WAQ16691)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at ateb Prif Weinidog Cymru i WAQ16684.

### Cymorth a Gynigiwyd i International Rectifier

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y cymorth dewisol rhanbarthol a gynigiwyd i International Rectifier ar gyfer ei ffatri yn Abertawe? (WAQ16736)

**Andrew Davies:** Yn 1998, cynigiwyd grant cymorth dewisol rhanbarthol i International Rectifier Electronic Motor Systems Ltd i sefydlu ffatri yn Abertawe er mwyn cynhyrchu isgydosodiadau electronig. Cyhoeddwyd wedyn y byddai hyn yn golygu buddsoddiad cyfalaf o £32 miliwn, a chreu dros 530 o swyddi.

### Grant i International Rectifier

**Alun Cairns:** Faint o'r grant sydd ar gael i International Rectifier Electronic Motor Systems Ltd? (WAQ16737)

**Andrew Davies:** Mae'r rhandaliadau grant a wneir yn cael eu hystyried yn fasnachol gyfrinachol. Fel arfer, mae'r rhandaliadau'n gysylltiedig â buddsoddiad cyfalaf ac/neu â'r nifer o swyddi a sbardunir, ac mae International Rectifier wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei ffatri yn Abertawe.

### Cyfanswm y Cymorth a Gynigiwyd i International Rectifier

**Alun Cairns:** Faint o gymorth dewisol rhanbarthol a gynigiwyd i International Rectifier Electronic Motor Systems Ltd, a phryd y bydd arian y grant ar gael? (WAQ16738)

**Andrew Davies:** Cynigiwyd £3.2 miliwn o gymorth dewisol rhanbarthol i brosiect International Rectifer yn Abertawe. Mae'r arian ar gael i'w ddefnyddio yn ystod oes y prosiect dros sawl blwyddyn, wrth gyrraedd y sbardunau y cytunwyd arnynt yn y llythyr cynnig.

### Swyddi a Grëwyd yn International Rectifier

**Alun Cairns:** Faint o swyddi a grëwyd yn International Rectifier Electronic Motor Systems Ltd o ganlyniad i'r cymorth dewisol rhanbarthol? (WAQ16739)

**Andrew Davies:** Hyd yma, crëwyd oddeutu 130 o swyddi yn ffatri International Rectifier yn Abertawe, ac mae gan y prosiect sawl blwyddyn i redeg.

### Hwyluswyr Sector Preifat

**Alun Cairns:** Faint o hwyluswyr sector preifat Amcan 1 sydd wedi cael eu cyflogi gan y Cynulliad? (WAQ16742)

**Andrew Davies:** Mae'r uned sector preifat o fewn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cyflogi tri hwylusydd sector preifat ar secondiad hyd yma.

### Hwyluswyr Sector Preifat

**Alun Cairns:** Ar ba ddyddiadau y cafodd hwyluswyr sector preifat Amcan 1 eu penodi? (WAQ16743)

**Andrew Davies:** Penodwyd yr hwyluswyr sector preifat o fewn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru rhwng mis Mehefin a mis Medi 2001.

### Hwyluswyr Sector Preifat

**Alun Cairns:** Pryd y dechreuodd yr hwyluswyr sector preifat Amcan 1 cyntaf ar eu dyletswyddau? (WAQ16744)

**Andrew Davies:** Dechreuodd yr hwylusydd sector preifat Amcan 1 cyntaf a gyflogwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar ei ddyletswyddau ym mis Awst 2001.

### Hwyluswyr Sector Preifat

**Alun Cairns:** Pryd y dechreuodd y grwp olaf o hwyluswyr sector preifat Amcan 1 i gael eu penodi, ar eu dyletswyddau? (WAQ16745)

**Andrew Davies:** Dechreuodd yr hwylusydd sector preifat Amcan 1 olaf a gyflogwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar ei ddyletswyddau ym mis Medi 2001.

### Ceir Gweinidogion

**Alun Cairns:** Pwy sy'n gyfrifol am dalu dirwyon sy'n cael eu rhoi pan fydd ceir Gweinidogion yn ymgymryd â dyletswyddau swyddogol? (WAQ16751)

**Alun Cairns:** Sawl gwaith y mae ceir Gweinidogion wedi'u cosbi am yrru'n rhy gyflym tra'n ymgymryd â dyletswyddau swyddogol ers mis Mai 1999? (WAQ16752)

**Alun Cairns:** Sawl gwaith y mae ceir Gweinidogion wedi'u cosbi am barcio'n anghyfreithlon tra'n ymgymryd â dyletswyddau swyddogol ers mis Mai 1999? (WAQ16753)

**Prif Weinidog Cymru:** Gyrwyr ceir swyddogol sy'n bersonol gyfrifol am unrhyw ddirwyon yn sgîl troseddau gyrru neu barcio a gyflawnir ganddynt. Cofnodir manylion unrhyw ddirwyon neu bwyntiau i ddibenion cyfrinachol personél yn unig.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Ymchwiliad i Dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru

**Nick Bourne:** Pa wybodaeth y mae'r Gweinidog wedi'i derbyn yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Cabinet ynghylch yr ymchwiliad Ewropeaidd, OLAF, i dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru, a rôl y cyn-Ddirprwy Brif Weinidog yn y twyll hwnnw? (WAQ16688)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at ateb Prif Weinidog Cymru i WAQ16684.

### Cyngor Celfyddydau Cymru (Grant)

**Alun Cairns:** Pa ran y mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i chwarae, mewn unrhyw ffordd, mewn perthynas â'r grant o £150,000 a gafodd ei neilltuo yng nghyhoeddiad cyllideb Tachwedd 2001? (WAQ16704)

**Jenny Randerson:** Yn ystod yr hydref 2001 gofynnwyd i Gyngor Celfyddydau Cymru ddarparu gyngor ynghylch y dull mwyaf effeithiol o ddarparu ar gyfer cerddoriaeth siambr yng Nghymru. Mae wedi parhau i roi cyngor ers hynny.

### Cyngor Celfyddydau Cymru

**Alun Cairns:** Beth fu rhan Canolfan Celfyddydau Cymru yn y gwaith o ddewis neu gymeradwyo unrhyw gymorth ariannol i gerddorfeydd yng Nghymru? (WAQ16705)

**Jenny Randerson:** Yn ystod yr hydref 2001 gofynnwyd i Gyngor Celfyddydau Cymru ddarparu gyngor ynghylch y dull mwyaf effeithiol o ddarparu ar gyfer cerddoriaeth siambr yng Nghymru. Mae'r Cyngor wedi parhau i roi cyngor ers hynny.

## Grant i Gerddorfeydd

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffordd yr anogwyd cerddorfeydd i wneud cais am y grant o £150,000 a gafodd ei neilltuo yng nghyhoeddiad cyllideb Tachwedd 2001? (WAQ16706)

**Jenny Randerson:** Nifer cymharol fach o gerddorfeydd sydd gennym a allai fodloni'r meini prawf ar gyfer derbyn cyllid. Cyhoeddwyd bod cymorth ariannol ar gael yn natganiad cyllideb y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 22 Tachwedd, ac ailadroddwyd hynny yn fy natganiad innau i'r Pwyllgor Diwylliant ar 5 Rhagfyr. Gofynnwyd i gyngor y celfyddydau ddarparu asesiad arbenigol o'r sefydliadau a allai fodloni'r meini prawf, ac rydym wedi bod yn trafod â hwy y ffordd orau o ddefnyddio'r arian sydd ar gael.

## Ceisiadau yn ymwneud â Cymorth Grant

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r ceisiadau y mae hi wedi'u derbyn mewn perthynas â'r grant o £150,000 a gafodd ei neilltuo yng nghyhoeddiad cyllideb Tachwedd 2001, ynghyd â dyddiadau unrhyw geisiadau o'r fath? (WAQ16710)

**Jenny Randerson:** Mae pum cais wedi'u derbyn a'r rheiny oddi wrth Cerddorfa Siambr Cymru, Sinfonia Cymru, Recordiau Ensemble Cymru, Cerddorfa Ffilharmonig Cymru a PM Music Ensemble. Derbyniwyd y rhain rhwng Tachwedd 2001 a Mawrth 2002.

## Cysylltiadau â Chymorth Grant

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru unrhyw gysylltiadau â hi mewn perthynas â'r grant o £150,000 a gafodd ei neilltuo yng nghyhoeddiad cyllideb Tachwedd 2001, ynghyd â dyddiadau unrhyw gysylltiadau o'r fath? (WAQ16711)

**Jenny Randerson:** Nodais nifer o sefydliadau a fynegasai ddiddordeb yn y cyllid yn yr ateb a roddais i WAQ 16710.

Yr wyf wedi derbyn chwe llythyr arall oddi wrth aelodau o'r cyhoedd a dau oddi wrth Aelodau'r Cynulliad. Yn ogystal, mae Prif Weinidog Cymru wedi derbyn un llythyr oddi wrth aelod o'r cyhoedd ac mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi derbyn pum llythyr oddi wrth aelodau o'r cyhoedd a phedwar gan Aelodau'r Cynulliad. Derbyniwyd yr holl lythyrau hyn yn ystod y cyfnod ar ôl Tachwedd 2001.

## Cynllun Busnes Cerddorfa Siambr Cymru

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau a gymerwyd i werthuso cynllun busnes Cerddorfa Siambr Cymru newydd yng ngoleuni'r adroddiadau am ei threfniadau i gynnal rhaglen o gyngherddau tramor? (WAQ16727)

**Jenny Randerson:** Mae'r gwaith o ystyried y cynllun busnes bron wedi'i gwblhau. Mae gan fudiadau celfyddydol ran i'w chwarae yn y gwaith o godi proffil Cymru dramor, ac rwy'n falch iawn fod gan Gerddorfa Siambr Cymru gynlluniau ar gyfer gwneud hynny.

## Cais am Gyllid gan Gerddorfa Siambr Cymru

**Owen John Thomas:** A fynegodd Cyngor Celfyddydau Cymru amheuon neu bryderon ynghylch cais Cerddorfa Siambr Cymru am gyllid? (WAQ16728)

**Jenny Randerson:** Dywedodd Cyngor y Celfyddydau fod Cerddorfa Siambr Cymru yn bodloni amcanion strategol y Cynulliad a'i fod yn gymwys i dderbyn cefnogaeth fel rhan o becyn ariannu i sicrhau bod pobl yn cael clywed cerddoriaeth siambr ar draws Cymru.

### Rhoi Arian i Gerddorfa Siambr Cymru

**Owen John Thomas:** Pam y cytunwyd i roi £20,000 i Gerddorfa Siambr Cymru bythefnos yn unig cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon? (WAQ16729)

**Jenny Randerson:** Roedd y ffordd y cyflwynwyd cynllun busnes y gerddorfa yn fodd i alluogi'r Cynulliad i ystyried ei hargymhellion ar gyfer 2001-02 a blynyddoedd olynol ar wahân. Dyrannwyd swm o £20,000 i gefnogi costau sefydlu'r gerddorfa, costau a gafwyd yn rhan olaf y flwyddyn ariannol hon.

### Arian ar Gyfer Sefydlu Cerddorfa Siambr Cymru

**Owen John Thomas:** Pam y cytunwyd i roi £20,000 i sefydlu Cerddorfa Siambr Cymru pan fo'i chynllun busnes wrthi'n cael ei gwerthuso? (WAQ16730)

**Jenny Randerson:** Roedd y ffordd y cyflwynwyd y cynllun yn fodd i alluogi'r Cynulliad i ystyried ei hargymhellion ar gyfer 2001-02 a blynyddoedd olynol ar wahân. Mae trafodaethau am weithgareddau'r dyfodol ac arian ar gyfer y dyfodol yn parhau, a byddaf yn gwneud cyhoeddiad yn y man.

### Ceisiadau am Gyllid gan Gerddorfeydd Eraill yng Nghymru

**Owen John Thomas:** Pryd y gofynnwyd i gerddorfeydd eraill, yn ogystal â Cherddorfa Siambr Cymru, wneud ceisiadau am gyllid? (WAQ16731)

**Jenny Randerson:** Nifer cymharol fach o gerddorfeydd sydd gennym a allai fodloni'r meini prawf ar gyfer derbyn cyllid. Cyhoeddwyd bod cymorth ariannol ar gael yn natganiad cyllideb y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 22 Tachwedd, ac ailadroddwyd hynny yn fy natganiad innau i'r Pwyllgor Diwylliant ar 5 Rhagfyr. Gofynnwyd i gyngor y celfyddydau ddarparu asesiad arbenigol o'r sefydliadau a allai fodloni'r meini prawf, ac rydym wedi bod yn trafod â hwy y ffordd orau o ddefnyddio'r arian sydd ar gael.

### Cais Cerddorfa Siambr Cymru am Gyllid

**Owen John Thomas:** Pryd y cychwynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru drafod â Cherddorfa Siambr Cymru ei chais am gyllid? (WAQ16732)

**Jenny Randerson:** Trafodwyd ymagwedd y Cynulliad at gerddoriaeth siambr gyda'r gerddorfa a swyddogion y Cynulliad ym mis Mehefin 2001. Derbyniwyd cynllun busnes llawn gan y gerddorfa ym mis Ionawr 2002.

### Cynllun Busnes Cerddorfa Siambr Cymru

**Owen John Thomas:** Pam na ddewiswyd Cyngor Celfyddydau Cymru, a oedd wedi bod yn rhan o'r drafodaeth am Gerddorfa Siambr Cymru, i werthuso cynllun busnes y gerddorfa? (WAQ16733)

**Jenny Randerson:** Mae Cyngor y Celfyddydau wedi bod yn gysylltiedig â'r gwaith o ystyried cynllun busnes Cerddorfa Siambr Cymru ac mae'n parhau i ddarparu cyngor.

### Ceisiadau am Gyllid wedi eu Cymeradwyo gan y Gweinidog

**Owen John Thomas:** Sawl prosiect y mae'r Gweinidog ei hun wedi cymeradwyo eu ceisiadau am gyllid cyn i Gyngor Celfyddydau Cymru werthuso'u cynlluniau busnes? Pryd y gwnaed dyraniadau o'r fath, a pha symiau a roddwyd? (WAQ16734)

**Jenny Randerson:** Un. Neilltuodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £500,000 yn 2001-02 er mwyn cefnogi Dinas a Sir Caerdydd i ddatblygu bid ar gyfer sicrhau statws Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, wrth gwrs, â chynrychiolaeth ar fwrdd Caerdydd Prifddinas Diwylliant

### Ceisiadau am Gyllid i'r Celfyddydau yn y Dyfodol

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch ei chynlluniau i sicrhau y bydd ceisiadau am gyllid i'r celfyddydau yn y dyfodol yn agored, yn eglur, yn atebol ac o fewn cyrraedd pawb â'r buddiannau perthnasol? (WAQ16735)

**Jenny Randerson:** Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd angen sicrwydd arnaf yn y dyfodol fod y cyllid yn cael ei ddefnyddio o fewn y cylch gwaith a bennwyd gennyf i ac o fewn y polisïau a amlinellwyd yn fy strategaeth ar gyfer diwylliant 'Creative Future: Cymru Greadigol'.

### Rhaglen Ryngwladol Eang 2003 Cerddorfa Siambr Cymru

**Owen John Thomas:** A oedd gan y Gweinidog unrhyw ran yng nghynllun Cerddorfa Siambr Cymru ar gyfer rhaglen ryngwladol eang yn 2003, ac a oedd hyn ar y gweill cyn cwblhau'r gwaith o werthuso cais y gerddorfa am arian gan y Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ16740)

**Jenny Randerson:** Mae trafodaethau gyda'r gerddorfa ynghylch gweithgareddau'r dyfodol a chyllid ar gyfer y dyfodol yn parhau. Mae gan fudiadau celfyddydol ran i'w chwarae yn y gwaith o godi proffil Cymru dramor, ac rwy'n falch iawn fod gan Gerddorfa Siambr Cymru gynlluniau ar gyfer gwneud hynny.

### Cyngor oddi ar Cyngor Celfyddydau Cymru

**Jonathan Morgan:** Mewn perthynas â'i hateb i WAQ16676, pryd y cynigiodd Cyngor Celfyddydau Cymru gyngor ar gyllido cerddorfa siambr newydd? (WAQ16772)

**Jenny Randerson:** Mae cyngor y celfyddydau wedi bod yn cynnig cyngor ers Hydref 2001 ar y dull mwyaf effeithiol o ddarparu ar gyfer cerddoriaeth siambr yng Nghymru.

### Cyrff Celfyddydol Newydd

**Jonathan Morgan:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu rhoi cyllid uniongyrchol i unrhyw gyrff celfyddydol newydd eraill heblaw'r gerddorfa siambr newydd? (WAQ16773)

**Jenny Randerson:** Mae Adran 32 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn nodi

'y gall y Cynulliad wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn briodol i gefnogi [yn isadran(d)] y celfyddydau, crefft, chwaraeon neu weithgareddau diwylliannol neu adloniannol eraill yng Nghymru'.

Dyma rym y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am ei ddefnyddio. Nid wyf yn ystyried fod gan Gyngor Celfyddydau Cymru fonopoli ar ddarparu grantiau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Ymchwiliad i Dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru

**Nick Bourne:** Pa wybodaeth y mae'r Gweinidog wedi'i derbyn yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Cabinet ynghylch yr ymchwiliad Ewropeaidd, OLAF, i dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru, a rôl y cyn-Ddirprwy Brif Weinidog yn y twyll hwnnw? (WAQ16685)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at ateb Prif Weinidog Cymru i WAQ16684.

### Grantiau Dysgu y Cynulliad

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r manylion ynghylch sut y bydd grantiau dysgu newydd y Cynulliad yn cael eu dyfarnu, ac yn erbyn pa feini prawf? (WAQ16748)

**Jane Davidson:** Mae'r union fanylion yn cael eu trafod mewn ymgynghoriad ag awdurdodau addysg lleol a budd-ddeiliaid eraill. Yn amodol ar ganlyniad y rhain, y cynlluniau cyfredol yw y bydd grantiau dysgu'r Cynulliad yn cael eu dyfarnu i fyfyrwyr addysg uwch ac addysg bellach sydd: fel arfer yn byw yng Nghymru, sy'n gymwys ar gyfer statws myfyriwr cartref; sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer prawf modd; ac sy'n ymgymryd â chwrs neu raglen astudiaeth sylweddol.

Mae'n debyg y pennir lefel y grant gan: swm yr incwm gweddillol dan drothwy neilltuol; a yw'r myfyriwr yn astudio'n llawn amser neu'n rhan amser; pa un a yw'r myfyriwr yn fyfyriwr hŷn neu beidio – dros 25 - ac a oes gan y myfyriwr blant dibynnol ac a yw'n gorfod talu costau gofal plant.

### Rhaglenni Sgiliau Allweddol

**Jonathan Morgan:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i fynd i'r afael â'r farn bresennol bod rhaglenni sgiliau allweddol yn methu? (WAQ16754)

**Jane Davidson:** Mae sgiliau allweddol yn parhau yn gydran bwysig iawn o addysg a'r fframwaith cymwysterau. Yn dilyn adolygiadau'r awdurdodau rheoli o gymwysterau ôl-16 a sgiliau allweddol, cyhoeddais nifer o fesurau i wella'r gwaith o gyflwyno sgiliau allweddol a'r nifer sy'n ymgymryd â hwy. Mae'r mesurau a gyhoeddwyd gennyf yn cynnwys cyflwyno rhaglenni mwy hyblyg sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr, gydag ardystio unigol ar gyfer sgiliau allweddol yn disodli'r cymhwyster sgiliau allweddol cyfun, a mwy o ddefnydd o gymwysterau procsi yn lle profion sgiliau allweddol.

Bydd Rhaglen Cymorth Sgiliau Allweddol Cymru yn parhau mewn ysgolion a cholegau. Roedd yr adolygiad o sgiliau allweddol yn cadarnhau llwyddiant cychwynnol y rhaglen hon. Gobeithiaf y bydd hyd yn oed mwy o ysgolion a cholegau yn manteisio ar yr hyfforddiant yn 2002-03.

Mewn hyfforddiant yn y gwaith, mae Dysgu ac Addysgu Cymru, a'r cynghorau addysg a hyfforddiant cyn hynny, wedi rhoi pecyn cymorth hyfforddiant ar waith ar gyfer darparwyr dysgu yn y gwaith i'w galluogi i ddatblygu'u gallu o ran cyflwyno, asesu a phrofi sgiliau allweddol. Mae ELWa hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer darparwyr hyfforddiant preifat i'w galluogi i ddatblygu eu gallu o ran cyflwyno sgiliau allweddol.

Mae fy nghynllun gweithredu ar gyfer cyflogaeth a sgiliau yn cynnwys ymrwymiad i weithio gydag Awdurdod Cwricwlwm, Cymwysterau ac Asesu Cymru, ACCAC; monitro'r nifer sy'n ymgymryd â chymwysterau sgiliau allweddol ym mhob llwybr dysgu; a pharatoi adroddiad adolygu erbyn Rhagfyr 2003. Yn y cyfamser, mae ACCAC yn ystyried ffyrdd o sicrhau trefniadau profi mwy hyblyg, gan gynnal yr un ansawdd a'r un trylwyredd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Ymchwiliad i Dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru

**Nick Bourne:** Pa wybodaeth y mae'r Gweinidog wedi'i derbyn yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Cabinet ynghylch yr ymchwiliad Ewropeaidd, OLAF, i dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru, a rôl y cyn-Ddirprwy Brif Weinidog yn y twyll hwnnw? (WAQ16689)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at ateb Prif Weinidog Cymru i WAQ16684.

### Cost Disgwyliedig ULTra

**David Davies:** Faint y disgwylir y bydd cynllun trafnidiaeth ULTra arfaethedig Caerdydd yn ei gostio? (WAQ16696)

**Sue Essex:** Yr amcangyfrif ar gyfer rhwydwaith estynedig, a fyddai'n cysylltu canol y ddinas, y ganolfan ddinesig a Bae Caerdydd, yw oddeutu £45 miliwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyllid o £3.7 miliwn yn 2002-03 i gefnogi'r gwaith o ddylunio'r cam cyntaf. Mae'r Adran Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau yn ariannu gwaith profi'r prototeip gyda grant o £2.7 miliwn dan ei chynllun cludiant arloesol. Os bydd y profi'n foddhaol, ac yn amodol ar ganiatáu unrhyw gydsyniadau statudol angenrheidiol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barod i ariannu cost gweithredu'r cam cyntaf ym mae Caerdydd, ar gyfanswm cost (gan gynnwys y dyluniad) o £19.2 miliwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn disgwyl i benderfyniad Cyngor Dinas a Sir Caerdydd i adeiladu gweddill y rhwydwaith arfaethedig gynnwys partner o'r sector preifat.

Yn ogystal, mae gwaith dylunio a chynhyrchu'r cerbyd prototeip wedi derbyn cefnogaeth yr Adran Masnach a Diwydiant drwy grant dan eu prosiect cerbydau blaengar. Mae cyllid o £1.48 miliwn ewro wedi cael ei neilltuo hefyd dan y categori arfarnu ac arddangos cludiant dinas blaengar oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd.

### Canolfan Alwadau Traveline Llangefni

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar waith i atal cau canolfan alwadau Traveline yn Llangefni? (WAQ16755)

**Sue Essex:** Ymwelais â chanolfan alwadau Traveline yn Llangefni ar 22 Mawrth, ac yr oeddwn yn falch o allu cyhoeddi yn ystod fy ymweliad y bydd y Cynulliad yn darparu £18,000 a fydd yn diogelu dyfodol y ganolfan, a swyddi'i hasiantau, tan o leiaf ddiwedd Mehefin. Tan hynny, bydd fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda phawb sy'n gysylltiedig, gan gynnwys Gwybodaeth Cludiant Cyhoeddus Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a Fforwm Anabledd Taran Cyf., er mwyn ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer diogelu ei dyfodol yn y tymor hwy. Fel rhan o'r broses hon, bydd Cadeirydd Gwybodaeth Cludiant Cyhoeddus Cymru yn ymweld â Llangefni ar 21 Mawrth i drafod y materion hyn, a bydd yn adrodd i mi ar ei gasgliadau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Ymchwiliad i Dwyll yng Nghyd- Bwyllgor Addysg Cymru

**Nick Bourne:** Pa wybodaeth y mae'r Gweinidog wedi'i derbyn yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Cabinet ynghylch yr ymchwiliad Ewropeaidd, OLAF, i dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru, a rôl y cyn-Ddirprwy Brif Weinidog yn y twyll hwnnw? (WAQ16690)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at ateb Prif Weinidog Cymru i WAQ16684.

## Gwariant ar Hysbysebu

**David Davies:** Pa ganran o gynnyrch mewnwladol crynswth sydd wedi'i wario ar gyllideb hysbysebu'r Cynulliad ar gyfer: i)1999-2000; ii) 2000-2001; a iii) 2001-2002? (WAQ16712)

**Edwina Hart:** Dangosir ffigurau'r CMC a'r gwariant ar hysbysebu yn y tabl isod. Nid yw ffigurau 2001-02 ar gael eto.

| | **1999-2000** | **2000/01** |
|---|---|---|
| CMC (DU) | £931,021m | £956,164m |
| Gwariant Hysbysebu | £653,062 | £972,624 |

Nid yw mynegi gwariant hysbysebu Llywodraeth Cynulliad Cymru fel cyfran o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth y DU yn darparu ffigur ystyrlon.

## Dyfarniad Achos Richard Rogers

**Nick Bourne:** Gan gyfeirio at ateb y Gweinidog i OAQ16325, pan gyfeiriodd at ymgyfreithio dilynol, pa gynlluniau sydd ganddi ar gyfer ymgyfreithio pellach, yng ngoleuni'r ateb a roddodd i WAQ16172? (WAQ16714)

**Edwina Hart:** Fe'm cynghorwyd i beidio â chyflwyno sylwadau ar bosibilrwydd ymgyfreitha dilynol gan y gallai niweidio sefyllfa'r Cynulliad.

## Dyfarniad Achos Richard Rogers

**Nick Bourne:** Gan gyfeirio at ateb y Gweinidog i OAQ16325, a wnaiff y Gweinidog ddweud pwy a'i cynghorodd i beidio â chyflwyno sylwadau pellach ar benderfyniad y dyfarnwr, ac a wnaiff gyhoeddi'r cyngor hwnnw? (WAQ16715)

**Edwina Hart:** Mae fy nghamau gweithredu yn seiliedig ar y cyngor cyfreithiol a dderbyniais. Mae'r cyngor yn gyfreithiol freintiedig ac ni allaf ddatgelu'r cyngor gan y gallai hynny arwain at golli braint a niweidio buddiannau'r Cynulliad.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cytuno i adolygu'r papurau a'r broses a fydd yn arwain at y dyfarniad er mwyn iddo allu bodloni'i hun fod y Cynulliad wedi gweithredu'n ddoeth, ac ar sail cyngor priodol. Bydd y canlyniad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.

## Cod Arferion ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru

**Peter Rogers:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effeithiolrwydd y cod arferion a argymhellir ar gyfer cyhoeddusrwydd awdurdodau lleol yng Nghymru? (WAQ16716)

**Edwina Hart:** Cynhyrchwyd y cod arferion a argymhellir ar gyfer cyhoeddusrwydd awdurdodau lleol yng Nghymru ym mis Hydref 2001. Disodlai hwn y cod arferion blaenorol, sef cod ar grŵp cyd ar gyfer Cymru, yr Alban a Lloegr. Fe'i cynhyrchwyd yn dilyn ymgynghoriad llawn gyda llywodraeth leol, a darparai arweiniad ymarferol iddynt ar gyfer eu hymgynghoriadau diweddar ar strwythurau gwleidyddol.

## Cyllido Cerddorfa Siambr Cymru

**Owen John Thomas:** Beth oedd rôl benodol y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau mewn perthynas â'r penderfyniad i gyllido Cerddorfa Siambr Cymru? (WAQ16726)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad cyllideb ar 22 Tachwedd.

### Symiau a Wariwyd ar yr Ymgyfreitha Mewn Perthynas â Chytundeb Richard Rogers

**Ron Davies:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu ariannu, yn y cyfrifon diwedd blwyddyn, y symiau a wariwyd ar yr ymgyfreitha mewn perthynas â chytundeb Richard Rogers. (WAQ16741)

**Edwina Hart:** Mae'r ffioedd ar gyfer Partneriaeth Richard Rogers wedi cael eu cofnodi dan bennawd ystadau a ffioedd proffesiynol, a'r ffioedd cyfreithiol dan bennawd ffioedd cyfreithiol o fewn cyllideb y prosiect.

### Costau Gweinyddu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

**Jonathan Morgan:** Pa gyfran o gyllideb y Cynulliad, ers 1999, a gafodd ei gwario yn ariannu costau gweinyddu cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? (WAQ16750)

**Edwina Hart:** Yn seiliedig ar all-dro blynyddoedd ariannol 1999-2000 a 2000-01, a'r cyllidebau ar 12 Mawrth 2002 ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2001-02), mae'r wybodaeth y gofynnir amdani fel a ganlyn:

1999-2000 0.99 y cant
2000-2001 1.01 y cant
2001-2002 1.20 y cant

Creu'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant sy'n gyfrifol am y cynnydd bach ar gyfer 2001-02.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Ymchwiliad i Dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru

**Nick Bourne:** Pa wybodaeth y mae'r Gweinidog wedi'i derbyn yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Cabinet ynghylch yr ymchwiliad Ewropeaidd, OLAF, i dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru, a rôl y cyn-Ddirprwy Brif Weinidog yn y twyll hwnnw? (WAQ16686)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at ateb Prif Weinidog Cymru i WAQ16684.

### Gofal Preswyl a Gofal Nyrsio Preifat

**Alun Cairns:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog yn eu cynnal i sicrhau gofal preswyl a gofal nyrsio preifat yng ngoleuni camau a gymerwyd gan rai perchnogion cartrefi gofal yn Abertawe a Chasnewydd? (WAQ16709)

**Jane Hutt:** Yr awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dros gynllunio a darparu neu gomisiynu gwasanaethau gofal. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl strategol o ran helpu i sicrhau bod gennym sector cartrefi gofal hyderus, hyblyg a hyfyw ar gyfer y dyfodol, a bod gwasanaethau hyfyw ar gael er mwyn cefnogi pobl ddiymgeledd.

Fel y cyhoeddais yn fy natganiad i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 13 Mawrth, yr wyf yn sefydlu grŵp strategaeth gofal i Gymru er mwyn dod â'r holl bartïon allweddol o gwmpas y bwrdd i gynllunio mewn ffordd adeiladol ar gyfer dyfodol y sector gofal. Mae cyfarfod cyntaf y grŵp hwnnw'n cael ei gynnal heddiw. Yn fy natganiad ar 13 Mawrth cyhoeddais hefyd fy mod yn cynyddu'r cyllid ar gyfer oedi gyda throsglwyddo gofal o £5 miliwn am y flwyddyn nesaf i £12 miliwn—cyfanswm

o £17 miliwn dros y ddwy flynedd. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r oedi wrth drosglwyddo gofal, bydd hyn yn helpu i gryfhau'r sector cartrefi gofal o fewn y system gofal cyfan.

## Cynnwys Brechlyn MMR

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru 'cynhwysion' y brechlyn MMR sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru? (WAQ16746)

**Jane Hutt:** Yn ôl y cyngor fferyllol a dderbyniais, mae pob dogn 0.5 ml o'r brechlyn MMR, pan gaiff ei ail-lunio gyda dŵr sterilaidd, yn cynnwys dim llai na'r dogn cyfatebol o:

| | |
|---|---|
| 1,000 dogn haint meithriniad meinwe (*TCID*) $_{50}$ | brechlyn y frech goch byw (dogn math enders mwy gwanedig o'r rhywogaeth edmonston) |
| 20,000 TCID $_{50}$ | brechlyn clwy'r pennau byw (jeryl lynn* rhywogaeth lefel B) |
| 1,000 TCID $_{50}$ | brechlyn rwbela byw (wistar, rhywogaeth/RA27) |

Cyn rhewsychu, mae pob uned o frechlyn yn cynnwys firws mewn 0.5 ml o gyfrwng gyda'r cyfansoddiad isod:

| | |
|---|---|
| 300.0 mcg | albwmin, USP dynol |
| 30.0 mcg | dipotasiwm hydrogen ffosffad USP |
| 30.0 mcg | disodiwm hydrogen ffosffad PhEur |
| 14.5 mg | gelatin, HSE hydroleiddiedig |
| 3.4 mg | cyfrwng 199 HSE |
| 140.0 mcg | cyfrwng hanfodol sylfaenol, eagle HSE |
| 20.0 mcg | monosodiwm L-glutamad USP |
| 25.0 mcg | neomysin sulffad USP |
| 3.4 mcg | ffenol coch HSE |
| 100.0 mcg | potasiwm dihydrogen ffosffad USP |
| 400.0 mcg | sodiwm bicarbonad PhEur |
| 100.0 mg | sodiwm dihydrogen ffosffad PhEur |
| 14.5 mg | Sorbitol |
| 1.9mg | Swcros |

## Ymchwiliad i Gartrefi Gofal i'r Henoed yn Ne Cymru

**Jonathan Morgan**: A wnaiff y Gweinidog roi braslun o'r amserlen ar gyfer ei hymchwiliad i gartrefi gofal i'r henoed yn ne Cymru? (WAQ16749)

**Jane Hutt:** Mae'r tîm, a brîff manwl, yn cael ei baratoi'n derfynol ar gyfer ymchwilio i'r trefniadau ar gyfer diogelu a diwallu anghenion gofal preswylwyr mewn cartrefi a roddwyd dan gontract gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg i Gymdeithas Tai Hafod Cyf. Bwriedir ymgymryd â'r gwaith maes yn ystod y ddau neu dri mis nesaf, gydag adroddiad yn cael ei baratoi ddiwedd yr haf.

## Penodi i'r Byrddau Iechyd Lleol Newydd

**Alun Cairns**: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i benodi aelodau/cyfarwyddwyr anweithredol i'r byrddau iechyd lleol newydd? (WAQ16774)

**Jane Hutt:** Cynigir y bydd gan bob bwrdd iechyd lleol 22 aelod, gan gynnwys cadeirydd annibynnol, chwe aelod gweithredol a hyd at 15 aelod proffesiynol ac eraill. Disgwylir y bydd cyfansoddiad y

byrddau iechyd lleol wedi'i drefnu'n derfynol erbyn diwedd Ebrill 2002. Rhagwelaf y bydd y polisi a'r cytundeb ar y prosesau yn eu lle erbyn mis Gorffennaf, yn dilyn cytundeb gyda'r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus ar gydweddoldeb gyda chod ymarfer Swyddfa'r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus. Cadarnheir pob penodiad erbyn diwedd Tachwedd.

### Nifer o Bobl sydd wedi Rhoi'r Gorau i Ysmygu

**Peter Rogers:** Pa amcangyfrifon a wnaed sy'n dangos faint o bobl Cymru sydd wedi llwyddo i roi'r gorau i ysmygu yn y 12 mis diwethaf? (WAQ16793)

**Jane Hutt:** Dim ond ar gyfer rhai mentrau neilltuol y mae data ar gael ar y niferoedd sydd wedi rhoi'r gorau i ysmygu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu ledled Cymru. Mae data monitro a gasglwyd ers Mehefin 2000 yn dangos fod 3,782 o'r rhai sy'n rhan o'r gwasanaethau hyn wedi pennu dyddiad ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu, gyda 1,981 wedi llwyddo i roi'r gorau i'r arfer pan gawsant eu holi ar ôl pedair wythnos. Mae'r ffigurau hyn yn dyst fod yr ymyriadau a gynigir gan y gwasanaethau yn effeithiol, a chyda'r gyfradd rhoi'r gorau i ysmygu yn 52 y cant ar gyfartaledd ar ôl pedair wythnos, maent yn unol â'r disgwyliadau o ran perfformiad da.

Bydd mwy o ddata ar gael ar y nifer sy'n rhoi'r gorau i ysmygu yng Nghymru wrth arfarnu'r gystadleuaeth 'rhowch gorau i ysmygu ac enillwch wobr' a gynhaliwyd rhwng Ionawr 2001 a Mawrth 2001. Bydd yn cael ei chwblhau ym mis Hydref 2002. Bydd yn asesu statws ysmygu'r 300 a fu'n rhan o'r gystadleuaeth ac a roddodd gorau i ysmygu ar ei chyfer.

Mae'r Cynulliad hefyd yn ariannu ymgyrchoedd blaengar, llinell gymorth ysmygwyr yng Nghymru, a chynhyrchu deunyddiau hunangymorth i helpu'r ysmygwyr hynny sydd am roi'r gorau i ysmygu heb fynychu gwasanaethau. Rhwng Ebrill 2001 a Mawrth 2002, cafodd y llinell gymorth dros 7,800 o alwadau gan oedolion y cynigiwyd deunyddiau hunangymorth iddynt. Mae hysbysebion diweddar a oedd yn targedu ysmygwyr yn eu harddegau wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y galwadau i'r llinell gymorth, gydag oddeutu 2,000 o alwadau mewn wythnos a thros 1,000 yn ymweld â'r wefan ar gyfer pobl ifanc ym mis Chwefror 2002.

### Nifer o Bobl sydd wedi Dechrau Ysmygu

**Peter Rogers:** Pa amcangyfrifon a wnaed sy'n dangos faint o bobl Cymru sydd wedi dechrau ysmygu yn y 12 mis diwethaf? (WAQ16794)

**Jane Hutt:** Nid yw'r systemau monitro presennol yn mesur faint o bobl sydd wedi dechrau ysmygu yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Yr ydym yn ymwybodol fod dros 80 y cant o ysmygwyr yn dechrau pan ydynt yn eu harddegau, ac amcangyfrifir bod oddeutu 450 o blant yn dechrau ysmygu bob diwrnod yn y DU. Mae adroddiad y Prif Swyddog Meddygol ar gyfer 2001-02 yn darparu ffigurau mynychtra a ddangosai fod ysmygu ymysg ieuenctid wedi cynyddu'n gyson yn ystod y 1980au a'r 1990au cynnar, i'r graddau fod 29 y cant o enethod a 23 y cant o fechgyn 15 oed erbyn 1996 yn dweud eu bod yn ysmygu'n wythnosol. Mae arolygon dilynol, yn galonogol, wedi awgrymu fod y cynnydd hwn mewn ysmygu rheolaidd wedi cyrraedd ei anterth ymysg merched, ac yn dechrau newid ymysg bechgyn—29 y cant ac 20 y cant yn 2000. Fodd bynnag, bydd angen cael data pellach i gadarnhau a yw hyn yn newid parhaol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad

### Ymchwiliad i Dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru

**Nick Bourne:** Pa wybodaeth y mae'r Gweinidog wedi'i derbyn yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Cabinet ynghylch yr ymchwiliad Ewropeaidd, OLAF, i dwyll yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru, a rôl y cyn-Ddirprwy Brif Weinidog yn y twyll hwnnw? (WAQ16687)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad (Carwyn Jones):** Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at ateb Prif Weinidog Cymru i WAQ16684.

## Arolygwyr Pysgodfeydd

**Alun Pugh:** Faint o arolygwyr pysgodfeydd a oedd wedi'u cyflogi yng Nghymru yn 1975, 1985, 1995 ac ar hyn o bryd? (WAQ16718)

**Carwyn Jones:** Mae gennym bedair asiantaeth yng Nghymru sy'n cyflogi arolygwyr pysgodfeydd. Mae Adran yr Amgylchedd, Amaethyddiaeth a Materion Gwledig yn cynnal arolygon ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

| **Nifer y Swyddogion Pysgodfeydd** | **1975** | **1985** | **1995** | **2002** |
|---|---|---|---|---|
| DEFRA | 4 | 4 | 5 | 5 |
| Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru | 1 | 5 | 5 | 7 |
| Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a'r Gogledd Orllewin | 4 | 7 | 6 | 7 |

Nid yw Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gallu darparu ffigurau yn yr amser a oedd ar gael. Byddaf yn ysgrifennu atoch yn unigol pan fydd yr asiantaeth yn cyflwyno'i ffigurau.